

## Thema 2 Nodiadau athrawon: Beth allwn ni ei ddysgu o olion traed?

<b>Cyfnod Sylfaen:</b>	
<p><b>Crynodeb o'r ymholiad:</b> I ddechrau, mae dysgwyr yn ystyried gwahanol olion ar draeth cyn gwneud eu hól troed eu hunain mewn tywod. Maent yn ystyried olion traed dinosor ac yn eu paru â thraed dinosoriaid ac yna'n ystyried sut i ddefnyddio eu traed i fesur pa mor dal ydyn nhw. Mae dysgwyr yn mesur pa mor dal ydyn nhw drwy ddefnyddio siâp traed sydd wedi eu torri allan, gan gofnodi eu canlyniadau a llunio casgliadau o'r data. Yn olaf, maent yn defnyddio'r berthynas rhwng hyd troed dinosor ac uchder ei glun i amcangyfrif pa mor dal ydy dinosoriaid.</p>	<p><b>Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh:</b></p> <p><b>CS: Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd:</b> Fi fy hun a phethau byw eraill</p> <p><b>Datblygiad Corfforol:</b> Personol</p> <p><b>FfLIRh:</b> <b>Defnyddio sgiliau mesur:</b> Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd</p> <p><b>Defnyddio data:</b> Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau</p>

<b>Sgrin</b>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Ar y sgrin hon, rhoddir lluniau o wahanol olion a wnaed ar draeth i'r dysgwyr. Mae'r rhain yn olion a wnaed gan adar, cŵn, pobl, ceffylau, teiars, ac ati. Gofynnir i ddysgwyr ystyried beth wnaeth yr olion a pham eu bod yn meddwl hyn, ac yna edrych am wahaniaethau a thebygrwydd rhyngddynt. Anogwch nhw i rannu syniadau gyda phartner ac yna gyda'r dosbarth cyfan os yw'n briodol.</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried olion ar draeth cyn gwneud eu olion traed eu hunain mewn tywod.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b> <a href="http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf">http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</a></p>
--------------	--	---

<p><b>1</b></p>	<p>Mae'r gweithgaredd yn cyfarwyddo'r dysgwyr i ddefnyddio cyfleusterau tywod yr ysgol i wneud eu holion eu hunain. Efallai y byddant yn gwneud traciau troednoeth neu wisgo gwahanol esgidiau i wneud olion, neidio yn y tywod a cherdded ar flaenau eu traed ac yn y blaen. Ceisiwch annog y dysgwyr i gymharu a chyferbynnu'r olion traed a wnânt ac i ystyried gwahaniaethau a thebygrwydd rhyngddyn nhw.</p>	<p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b> Bydd chwilio ar y rhyngrwyd gan ddefnyddio'r geiriau 'traciau/olion ar y traeth' yn darparu llawer o ffotograffau y gellid eu defnyddio fel deunydd ysgogi pellach.</p>
<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>2</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Ar y sgrin hon, ceir ffotograffau o draed dinosoriaid a lluniau o'u holion traed. Gofynnir i'r dysgwyr edrych ar y lluniau olion traed ac ar y ffotograffau o draed ac ystyried pa olion traed sy'n perthyn i bob dinosor. Mae'n ofynnol iddynt baru'r olion traed gyda'r traed cywir.</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried olion traed a thread dinosoriaid ac yn eu paru.</p>
<p><b>Sgrin</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Ar y sgrin hon, gofynnir i ddysgwyr drafod a rhannu eu syniadau ynglŷn â sut y gallent fesur pa mor dal ydynt trwy ddefnyddio eu traed. Maent yn cael eu hannog i ystyried pa ffordd a allai fod orau ac egluro pam. Mae'r cwestiynau yn darparu strwythur a ffocws i'r trafodaethau.  Dylai'r ddau weithgaredd a awgrymir gael eu cwblhau heb ddefnyddio'r cyfrifiadur.  Yn y set gyntaf o gwestiynau, caiff dysgwyr eu cyfarwyddo i dynnu llinell o gwmpas un o'u</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried sut i ddefnyddio eu traed i fesur pa mor dal ydyn nhw.</p>

<p><b>3</b></p>	<p>traed ar bapur ac i dorri allan siâp eu troed. Gofynnir iddynt dorri allan tua 10 o'r rhain a chânt eu cefnogi drwy'r broses gan ystod o gwestiynau ffocws. Mae'r rhain yn eu hannog i ystyried, er enghraifft, hyd a lled, mesuriadau, unedau ac yn y blaen.</p> <p>Yn yr ail set o gwestiynau, gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio eu holion traed a dorrwyd allan i fesur pa mor dal ydyn nhw. Maent yn cael eu hannog i ystyried sut y gellid cofnodi'r mesuriadau hyn ar gyfer y dosbarth cyfan a pha ffordd allai fod orau ar gyfer gwneud hynny. Mae lle ar y sgrin i ddysgwyr dynnu llun eu syniadau ar gyfer tabl canlyniadau. Pan maent yn hapus gyda'u dyluniad, gofynnir iddynt dynnu ei lun ar bapur.</p>	
<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>4</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Ar y sgrin hon, gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio eu siapiau troed sydd wedi eu torri allan i fesur pa mor dal ydyn nhw. Maent yn penderfynu sut i gyflawni'r dasg ac mae'n ofynnol iddynt gofnodi eu mesuriadau yn y tabl canlyniadau y maent wedi'i gynllunio. Mae cwestiynau wedi eu cynnwys i gefnogi'r broses hon.</p> <p>Yna, mae dysgwyr yn ystyried yr hyn y maent wedi ei ddarganfod. I ddechrau, gofynnir iddynt edrych ar y mesuriadau a gasglwyd, ac yna i ystyried a oes yna batrymau yn y mesuriadau. Os oes yna batrymau, dylent ystyried beth mae'r wybodaeth hon yn ei chyfleu iddyn nhw.</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn mesur pa mor dal ydyn nhw drwy ddefnyddio traed wedi eu torri allan, cofnodi canlyniadau ac yna'n defnyddio'r data i ddod i gasgliadau.</p>
	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Ar y sgrin hon, gofynnir cwestiwn i'r dysgwyr: '<b>Pa mor dal oedd dinosoriaid?</b>' Darperir lluniau o bedwar ôl troed dinosoriaid a'r dinosoriaid y mae'r pedwar ôl troed yn perthyn iddyn nhw.</p> <p>Hysbysir y dysgwyr o'r canlynol: 'Mae gwyddonwyr wedi gweithio allan beth oedd maint</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn defnyddio'r berthynas rhwng hyd troed dinosor ac uchder ei glun i ystyried pa mor dal ydy'r dinosor.</p>



<b>Sgrin</b>	<p>dinosoriaid drwy edrych ar eu holion traed. Mae uchder clun dinosor tua 4 gwaith hyd ôl ei droed.'</p> <p><b>5</b> Mae gofyn i ddysgwyr ddefnyddio maint pob ôl troed dinosor i amcangyfrif pa mor dal ydyw. Ar y sgrin, darparir grid sgwâr i ddysgwyr ei ddefnyddio ar gyfer eu hamcangyfrifon. Nod y gweithgaredd yw i ddysgwyr osod troed dinosor ar y grid, yna gosod y dinosor nesaf iddo a llusgo'r dinosor nes bod ei uchder ei glun tua pedair gwaith hyd ei droed. Yna, gellir defnyddio'r sgwariau ar y grid i amcangyfrif pa mor dal oedd y dinosor.</p>	
--------------	---	--



## Cyfnod Allweddol 2:

### Crynodeb o'r ymholiad:

I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol trwy ystyried olion ar draeth cyn iddyn nhw naill ai wneud eu hól troed eu hunain mewn tywod neu chwilio am olion traed yn lleol. Mae dysgwyr yn cyfrifo arwynebedd ôl troed dinosor a'u hól troed eu hunain ac yn eu cymharu. Maent yn ystyried a oes modd defnyddio cymarebau corff a ddefnyddir i bennu taldra dinosoriaid, i amcangyfrif taldra pobl. Yn olaf, mae dysgwyr yn ystyried dwy set o olion traed dinosor a dod i gasgliadau ar sail tystiolaeth.

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh:

#### CA2: Gwyddoniaeth:

Cyd-ddibyniaeth organebau

#### CA2: Addysg bersonol a chymdeithasol:

Datblygu rhif; Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes; Gwella'ch dysgu eich hun; Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

#### FfLIRh:

**Datblygu ymresymu rhifyddol**

**Defnyddio sgiliau rhif**

**Defnyddio sgiliau mesur:**

Hyd, pwysau/ màs, cynhwysedd

**Defnyddio data:**

Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau

<p><b>Sgrin</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Ar y sgrin hon mae lluniau o wahanol olion a wnaed ar draeth. Mae olion a wnaed gan adar, cŵn, pobl, ceffylau, teiars, ac ati. Gofynnir i ddysgwyr ystyried beth wnaeth yr olion a pham eu bod yn meddwl hynny, ac edrych am wahaniaethau a thebygrwydd.</p> <p>Anogwch nhw i rannu syniadau gyda phartner ac yna gyda'r dosbarth os yw'n briodol. Fel arall, efallai y gall dysgwyr ddefnyddio Cwestiwnaeth*, gweithgaredd lle maent yn ystyried</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried olion ar draeth cyn gwneud eu hól troed eu hunain mewn tywod neu chwilio am olion traed yn lleol.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b></p> <p><a href="http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publicatio">http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publicatio</a></p>
---------------------	---	---

<p>1</p>	<p>tystiolaeth drwy drafodaeth, ond cânt ofyn cwestiynau pan fyddant yn siarad yn unig ac nid ydyn nhw'n cael gwneud datganiadau.</p> <p>Mae gweithgaredd yn cyfarwyddo dysgwyr i ddefnyddio cyfleusterau tywod yr ysgol i wneud eu holion eu hunain. Efallai y byddant yn gwneud olion yn droednoeth, yn gwisgo gwahanol esgidiau i wneud olion, e.e. esgidiau ymarfer, yn neidio yn y tywod ac yn cerdded ar flaenau eu traed, ac ati. Ceisiwch annog y dysgwyr i gymharu a chyferbynnu'r olion traed a wnânt ac i ystyried gwahaniaethau a thebygrwydd rhyngddynt.</p>	<p><a href="https://www.gov.wales/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf">ns/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</a></p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b> Bydd chwilio ar y rhyngwrwd gan ddefnyddio'r geiriau 'olion ar y traeth' yn darparu llawer o ffotograffau y gellid eu defnyddio fel deunydd ysgogi pellach.</p>
<p>Sgrin</p> <p>2</p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Ar y sgrin hon mae amlinelliad o ôl troed dinosor nad yw wrth raddfa, ar grid fesur sydd ag iddi sgwariau 5cm. Mae teitl y gweithgaredd yn arwain dysgwyr i ganfod: 'Beth ydyn ni'n ei wybod am olion traed dinosoriaid?'.</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr edrych ar ôl troed dinosor deugoes. Gan ddefnyddio cwestiynau penodol, mae'r dasg yn arwain dysgwyr i amcangyfrif ac yna i gyfrifo arwynebedd ôl troed dinosor. Yn yr ail dasg a amlinellir ar y sgrin hon, gofynnir i'r dysgwyr dynnu llun o amgylch eu troed eu hunain ar bapur sgwariau.</p> <p>Mae'r cwestiynau mewn swigod yn eu tywys trwy'r broses o fesur a gweithio allan arwynebedd eu traed ac yna'u cymharu i arwynebedd ôl troed dinosor. Gofynnir iddynt hefyd ystyried sut y byddent yn dod o hyd i gyfaint eu hól troed.</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b> Mae dysgwyr yn cyfrifo arwynebedd ôl troed dinosor, eu hól troed eu hunain ac yn eu cymharu.</p>

<p><b>Sgrin</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Ar y sgrin hon, esbonir i ddysgwyr sut 'Mae gwyddonwyr wedi cyfrifo bod uchder clun dinosor tua 4 gwaith hyd troed dinosor. Mae gwybod hyn yn eu galluogi i amcangyfrif taldra dinosor.' Mae hyn hefyd yn cael ei ddangos ar ffurf diagram.</p> <p>Yn y dasg, gofynnir i ddysgwyr ymchwilio a yw hyn yn wir hefyd am fodau dynol. Gofynnir i ddysgwyr ystyried:</p> <p>3</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Pa berthynas all fod rhwng hyd troed person ac uchder ei glun?</li> <li>2) A yw hyd troed person yn dangos i ni yn fras pa mor dal ydynt?</li> </ol> <p>Gofynnir iddynt gynllunio a chynnal ymchwiliad i archwilio'r ddau gwestiwn hyn ac i ddefnyddio eu canfyddiadau i ddod i gasgliadau.</p> <p>Mae gweithgaredd pellach sy'n annog dysgwyr i ymchwilio i gymarebau eraill ynghylch y corff. Er enghraifft, efallai y byddant yn mesur hyd braich, rhychwant braich, hyd coes, cylchedd y pen ac yn y blaen. Efallai y byddant yn edrych am berthynas rhwng eu canlyniadau, yn cael eu hannog i wneud rhagfynegiadau a mesur dysgwyr eraill i edrych am batrymau i gadarnhau eu rhagfynegiadau.</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried a oes modd defnyddio cymarebau corff a ddefnyddir i bennu taldra dinosoriaid, i amcangyfrif taldra bodau dynol.</p>
<p><b>Sgrin</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Ar y sgrin hon mae diagram sy'n dangos olion troed dau ddinosor. Mae'r olion yn dechrau mewn gwahanol fannau ar ochr chwith y sgrin, yn cyfarfod yn y canol, ond wedyn dim ond un set o olion sy'n parhau i ochr dde y sgrin.</p> <p>Nod y dasg yw i ddysgwyr ystyried y dystiolaeth ac i ddod i gasgliadau ar sail tystiolaeth. Maent yn gallu defnyddio naill ai sgwâr ffynhonnell* neu ddiagram pwy-beth-pryd-ble-pam-sut* i helpu eu tywys trwy'r dasg gan ddefnyddio'r cwestiynau</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried dwy set o olion traed dinosor sy'n rhyngweithio ac yn dod i gasgliadau ar sail tystiolaeth.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b></p> <p><a href="http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publicatio">http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publicatio</a></p>



<b>4</b>	<p>penodol.</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr arsylwi a disgrifio dwy set o olion dinosoriaid, ystyried yr hyn a ddigwyddodd a dod i gasgliadau. Gofynnir iddynt ystyried pa dystiolaeth sydd yna i gefnogi eu casgliadau ac a yw dysgwyr eraill yn cytuno â'u tystiolaeth a'u casgliadau ai peidio, a pham eu bod yn gwneud hynny.</p>	<p><a href="https://www.gov.wales/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf">ns/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</a></p>
----------	--	---





## Cyfnod Allweddol 3:

### Crynodeb o'r ymholiad:

I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol trwy ystyried olion ar draeth, cyn iddyn nhw naill ai wneud eu hól troed eu hunain mewn tywod neu chwilio am olion traed yn lleol.

Maent yn archwilio a ellir defnyddio dulliau a ddefnyddir i benderfynu uchder clun dinosoriaid, gyda bodau dynol, gan ddefnyddio dulliau 'morphometrig' a 'geometrig' i gyfrifo uchder clun dinosoriaid ar sail y data mewn tabl a ddarperir.

Mae dysgwyr yn mesur hyd troed, uchder clun a thaldra cyffredinol grŵp mawr, plotio graffiau gwasgariad ac ystyried cydberthyniadau. Yn olaf, byddan nhw'n cyfrifo cymarebau uchder clun/hyd troed a thaldra/hyd troed, ac yn plotio graffiau gwasgariad ac ystyried cydberthyniadau.

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh:

#### CA3: Gwyddoniaeth:

Cyd-ddibyniaeth organebau

#### CA3: TGCh

Darganfod a dadansoddi gwybodaeth; Creu a throsglwyddo gwybodaeth

#### FfLIRh:

#### Datblygu ymresymu rhifyddol

#### Defnyddio sgiliau rhif

**Defnyddio sgiliau mesur:** Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd

**Defnyddio data:** Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau

<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>1</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Ar y sgrin hon mae lluniau o wahanol olion a wnaed ar draeth.</p> <p>Mae olion a wnaed gan adar, cŵn, pobl, ceffylau, teiars, ac ati. Gofynnir i ddysgwyr ystyried beth wnaeth yr olion a pham eu bod yn meddwl hynny, ac edrych am wahaniaethau a thebygrwydd.</p> <p>Anogwch nhw i rannu syniadau gyda phartner ac yna gyda'r dosbarth os yw'n briodol. Fel arall, efallai y gall dysgwyr ddefnyddio Cwestiwnaeth*, gweithgaredd lle maent yn ystyried tystiolaeth drwy drafodaeth, ond cânt ofyn cwestiynau pan fyddant yn siarad yn unig ac nid ydyn nhw'n cael gwneud datganiadau.</p> <p>Mae gweithgaredd pellach yn cyfarwyddo dysgwyr i ddefnyddio cyfleusterau tywod yr ysgol i wneud eu holion eu hunain. Efallai y byddant yn gwneud olion yn droednoeth, yn gwisgo gwahanol esgidiau i wneud olion, e.e. esgidiau ymarfer, yn neidio yn y tywod ac yn cerdded ar flaenau eu tread, ac ati. Ceisiwch annog y dysgwyr i gymharu a chyferbynnu'r olion traed a wnânt ac i ystyried gwahaniaethau a thebygrwydd rhyngddynt.</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried olion ar draeth cyn iddyn nhw unai wneud olion eu hunain mewn tywod neu edrych am olion troed yn eu hardal leol.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b></p> <p><a href="http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf">http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</a></p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b></p> <p>Bydd chwilio ar y rhyngwyd gan ddefnyddio'r geiriau 'traciau/olion ar y traeth' yn darparu llawer o ffotograffau y gellid eu defnyddio fel deunydd ysgogi pellach.</p>
<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>2</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>I ddechrau ar y sgrin hon, gofynnir i ddysgwyr ystyried a rhannu eu syniadau am beth yw ystyr 'cerddediad' ac i gael mwy o wybodaeth os oes angen.</p> <p>Maent yn cael eu hysbysu na ellir defnyddio dulliau modern o astudio 'cerddediad',</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn archwilio a oes modd defnyddio dulliau a ddefnyddir i benderfynu uchder clun dinosoriaid, i wneud yr un peth gyda bodau dynol.</p>

	<p>megis ffotograffiaeth cyflym iawn, gyda dinosoriaid a bod gwyddonwyr wedi amcangyfrif taldra dinosaur drwy ddefnyddio 'uchder clun', sydd wedi cael ei gyfrifo mewn ffyrdd gwahanol.</p> <p>Mae'r dull 'morphometric' yn amcangyfrif mai uchder clun yw pedair gwaith hyd ôl troed gefn dinosaur - cymhareb amrwd, ond defnyddiol. Mae'r dull 'geometrig' yn cymryd yn ganiataol mai hyd cam yw hyd gwaelod triongl isosgeles.</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr ystyried a yw'r ddau ddull hyn yn wir am fodau dynol, a mynd ymlaen i gynllunio a chynnal ymchwiliad i geisio ateb y cwestiwn hwn ac i ddefnyddio eu canfyddiadau i ddod i gasgliadau.</p> <p>Mae cwestiynau wedi'u darparu fel ysgogiadau i arwain dysgwyr trwy'r dasg.</p>	
<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>3</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Ar y sgrin hon, ailadroddir y dull 'morphometric' a'r dull 'geometrig' o amcangyfrif uchder clun dinosoriaid.</p> <p>Darperir tabl o ddata sy'n dangos 'hyd troed' a 'hyd cam' pump o ddinosoriaid. Gofynnir i ddysgwyr edrych ar y data a'i ddefnyddio i gyfrifo 'uchder clun' pob dinosaur, gan ddefnyddio'r ddau ddull a amlinellir.</p> <p>Mae lle i ddysgwyr i lunio tabl i ddangos eu canlyniadau. Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried beth maent yn sylwi am eu canlyniadau; pa gasgliadau y dônt iddyn nhw a pha dystiolaeth sydd i gefnogi eu casgliadau.</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn defnyddio'r dulliau 'morphometric' a 'geometrig' i gyfrifo uchder clun dinosoriaid gan ddefnyddio data mewn tabl a ddarperir.</p>

<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>4</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn cael eu hysbysu y gall palaeontolegwyr amcangyfrif maint a phwysau dinosoriaid, pa mor gyflym y gallent symud ac oeddynt yn teithio ar ben eu hunain neu mewn buchesi, drwy astudio olion ar ffurf llwybrau mewn ffosilau. Gan fod bodau dynol yn anifeiliaid deudroed, gall mesur eu nodweddion roi cipolwg ar yr hyn y gellir ei ddysgu o olion llwybrau dinosor deudroed.</p> <p>Gofynnir i grwpiau bach o ddysgwyr fesur hyd troed, uchder clun a thaldra cyffredinol pawb yn eu grŵp. Mae'n ofynnol iddynt lunio tabl, cofnodi eu data ac ychwanegu data grwpiau eraill yn y dosbarth i'r tabl. Gwahoddir dysgwyr i blotio graffiau gwasgariad o'r canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) hyd y droed yn erbyn uchder clun</li> <li>2) hyd y droed yn erbyn cyfanswm taldra.</li> </ol> <p>Mae cwestiynau yn eu hannog i ystyried a oes cydberthynas gref rhwng y ddau ffactor ym mhob achos ac a fyddai'r cydberthyniad yn gryfach neu'n wannach i anifeiliaid eraill.</p>	<p><b>Cyfle addysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn mesur hyd troed, uchder clun, ac uchder cyffredinol grŵp mawr, graffiau gwasgariad plot ac ystyried cydberthyniadau.</p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b></p> <p>Mae disgwyl y bydd y dudalen we hon ar gael yn y Gymraeg yn y dyfodol agos:</p> <p><a href="http://www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize/maths/statistics/scatterdiagramsrev1.shtml">http://www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize/maths/statistics/scatterdiagramsrev1.shtml</a></p>
	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio eu data o'r gweithgaredd ar y sgrin flaenorol i gyfrifo:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. y gymhareb uchder clun i hyd troed ar gyfer pob dysgwr</li> </ol>	<p><b>Cyfle addysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn cyfrifo cymarebau uchder clun/hyd troed a thaldra/hyd troed, ac yn plotio graffiau gwasgariad ac ystyried cydberthyniadau.</p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b></p>



Saurischian	Uchder (troedfeddi)	Uchder (m)	Hyd (troedfeddi)	Hyd (m)	Màs (pwysi)	Màs (kg)
<a href="#">Acrocanthosaurus</a> (madfall draenen bigog)	19	5.8	40	12.2	6,000	2,722.
<a href="#">Apatosaurus</a> (madfall twyllodrus)	15	4.5	75	22.9	66,000	29,937
<a href="#">Argentinosaurus</a> (madfall yr Ariannin)	70	21.4	120	36.6	220,000	99,792
<a href="#">Brachiosaurus</a> (madfall braich)	50	15.2	100	30.5	100,000.	45,360
<a href="#">Diplodocus</a> (trawst dwbl)	24	7.3	89	27.1	50,000	22,680
Oviraptor (lleidr wyau)	3	0.9	5	1.5	80	36
Megalosaurus (madfall mawr)	12	3.7	26	7.9	2,000	907
Tyrannosaurus (madfall teyrn)	23	7.0	50	15.2	14,000	6,350
Velociraptor (lleidr chwim)	2	0.6	6	1.8	250	113

Ornithischian	Uchder	Hyd	Pwysau
<a href="#">Ankylosaurus</a> (madfall arfog)	7 ft. 2.1 m	35 ft. 10.6 m	10,000lbs 4,536kg.
<a href="#">Corythosaurus</a> (madfall helmed)	16 ft. 4.9 m	30 ft. 9.1 m	8,860lbs 4,019kg.

<a href="#">Hadrosaurus</a> (madfall swmpus)	15 ft. 4.6 m	30 ft. 9.1 m	6,000lbs 2,722kg.
<a href="#">Iguanodon</a> (dinosor dannedd igwana)	18 ft. 5.5 m	30 ft. 9.1 m	10,000lbs 4,536kg.
<a href="#">Kentrosaurus</a> (madfall pigog)	<a href="#">Kentrosaurus</a> (madfall pigog)	5 ft. 1.5 m	17 ft. 5.2 m
<a href="#">Stegosaurus</a> (madfall platiog)	11 ft. 3.4 m	30 ft. 9.1 m	6,000lbs 2,722kg.
<a href="#">Triceratops</a> (gwyneb tri corn)	9.5 ft. 2.9 m	26 ft. 7.9 m	14,000lbs 6,350kg.